

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant

**Eich hawliau, eich llais, eich Cymru.**

Hawliau Plant Cymru
Children's Rights Wales

# Gair gan y Gweinidog

"Mae Cymru yn wlad lle mae hawliau plant yn gwbl sylfaenol. Rydyn ni am godi ymwybyddiaeth o hawliau plant er mwyn grymuso pob plentyn a person ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd."



**Julie Morgan MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

# CCUHP – cefndir

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mae dyletswydd ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ohono.

Mae yna 54 o hawliau plant:

- Mae 42 yn amlinellu'r hawliau eu hunain; ac
- Mae 12 yn ymwneud â sut gall llywodraethau sicrhau bod plant yn manteisio ar yr hawliau hyn.

# Ein hamcan

Mae i'n cynllun codi ymwybyddiaeth yr amcan canlynol:


**Grymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd.**

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru hyd at hydref 2023. Yna caiff y cynllun ei werthuso, a chyhoeddir fersiwn wedi'i diweddaru ym mis Ionawr 2024.

# Ein dull gweithredu

Rydym wedi ystyried erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi trafod gyda rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc. Rydym wedi nodi 5 llinyn gwaith:

| | |
|---|---|
| Llinyn 1: | **Plant a Phobl Ifanc** |
| Llinyn 2: | **Y Blynyddoedd Cynnar** |
| Llinyn 3: | **Lleoliadau Addysg** |
| Llinyn 4: | **Y Sector Cyhoeddus** |
| Llinyn 5: | **Rhieni a Gofalwyr** |



# Llinyn 1:
# **Plant a Phobl Ifanc**

**Nod:**
Darparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc ledled Cymru fynegi eu barn.

# Llinyn 1:
# **Plant a Phobl Ifanc**

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

**1. Sefydlu cylch blynyddol i bob Gweinidog ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc**

Bydd holl Weinidogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau blynyddol yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

**2. Ehangu prosiect Cymru Ifanc**

Byddwn yn galluogi mwy o blant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol a grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol i godi eu llais ynghylch penderfyniadau cenedlaethol.

**3. Cefnogi sefydliadau sy'n cynrychioli / cefnogi anghenion amrywiol plant a phobl ifanc**

Byddwn yn darparu cyllid ar gyfer ystod o sefydliadau i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc.

**4. Cefnogi awdurdodau lleol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc**

Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau lleol

**5. Cefnogi cylchlythyr gan bobl ifanc i bobl ifanc**

Bydd Plant yng Nghymru yn llunio cylchlythyr bob deufis gan bobl ifanc i bobl ifanc ynghylch yr agenda hawliau yng Nghymru.



# Llinyn 2:
# Y Blynyddoedd Cynnar

**Nod:**
Codi ymwybyddiaeth o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ymhlith gweithwyr proffesiynol sector y blynyddoedd cynnar

# Llinyn 2:
# Y Blynyddoedd Cynnar

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

**1. Datblygu Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar**

Bydd y Fframwaith Ansawdd yn amlinellu ymrwymiad i ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n seiliedig ar hawliau ac yn rhoi'r lle canolog i'r plentyn.

**2. Hyrwyddo hawliau plant drwy Raglen Dechrau'n Deg**

Byddwn yn gweithio gyda Chydlynwyr Dechrau'n Deg i hyrwyddo dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ac yn eu cefnogi i rannu gwybodaeth â'u rhwydweithiau.

**3. Cefnogi rhwydwaith hawliau plant y blynyddoedd cynnar**

Byddwn yn cefnogi'r rhwydwaith hwn i dynnu ynghyd randdeiliaid allweddol i rannu arferion da o ran hawliau plant.

**4. Datblygu a rhannu adnoddau â gweithlu'r blynyddoedd cynnar**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol megis UNICEF, Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru i ddatblygu adnoddau o ran Hawliau a Chynhwysiant.



# Llinyn 3:
# **Lleoliadau Addysg**

**Nod:**

Codi ymwybyddiaeth ymhlith penaethiaid ac arweinwyr addysg o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

# Llinyn 3:
# **Lleoliadau Addysg**

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

### 1. Datblygu cyfres o adnoddau dysgu proffesiynol i hyrwyddo gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a dealltwriaeth ohonynt

Byddwn yn rhoi cyllid i Plant yng Nghymru i nodi'r adnoddau sy'n bodoli a gweithio gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF a phenaethiaid er mwyn datblygu deunyddiau dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn gydnaws â'r ddyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth am y Confensiynau uchod a dealltwriaeth ohonynt o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu 2021.

### 2. Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cydweledigaeth o sut i ymgorffori hawliau plant o fewn lleoliadau addysg

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys UNICEF, Comisiynydd Plant Cymru, y Consortia Addysg Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol ac eraill er mwyn cytuno ar yr opsiynau i'r dyfodol.



Llinyn 4:

# Y Sector Cyhoeddus

**Nod:**

Cefnogi sefydliadau ac arweinwyr y sector cyhoeddus i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith

# Llinyn 4:
# **Y Sector Cyhoeddus**

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

**1. Datblygu gweledigaeth a dull gweithredu ar y cyd**

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys UNICEF a Chomisiynydd Plant Cymru, i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i ymgorffori hawliau plant o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus.

**2. Codi ymwybyddiaeth ymhlith arweinwyr y sector cyhoeddus**

Byddwn yn datblygu rhaglen weithgarwch i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn y sector cyhoeddus.

**3. Cefnogi pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ymgynghori â phlant a phobl ifanc**

Byddwn yn darparu cyllid i Plant yng Nghymru i gefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Bydd y rhwydwaith ymgynghori yn rhannu arferion da.

**4. Gwerthuso'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol**

Byddwn yn gwerthuso'r broses o fabwysiadu'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus a'i effaith.



# Llinyn 5:
# **Rhieni a Gofalwyr**

**Nod:**
Cefnogi rhieni i ddeall pwysigrwydd clywed barn plant ynghylch materion sy’n effeithio arnynt.

# Llinyn 5:
# **Rhieni a Gofalwyr**

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

**1. Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni a gofalwyr**

Mae hawliau'r plentyn wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o ymgyrch a gwefan Magu Plant: Rhowch Amser Iddo, a'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor diduedd yn rhad ac am ddim.

**2. Hyrwyddo canllawiau ar fagu plant**

Mae hawliau'r plentyn wedi'u hymgorffori yn y cymorth cyffredinol a rown ar fagu plant a'r cymorth targed.

**3. Casglu safbwyntiau rhieni a gofalwyr fel sail i weithredu**

Byddwn yn cefnogi Plant yng Nghymru i gynnal asesiad o'r sefyllfa i'n llywio wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn genedlaethol.

# Diwrnod Byd-eang y Plant



Bydd Diwrnod Byd-eang y Plant ar 20 Tachwedd yn gyfle blynyddol inni godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ledled Cymru.

# Sut byddwn yn mesur canlyniadau?

Byddwn yn holi dysgwyr ysgolion uwchradd i weld faint y maent yn ei wybod am hawliau plant a phobl ifanc drwy arolwg iechyd a lles myfyrwyr 2021/22 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Bydd data'r arolwg hwn ar gael o fis Mai 2022. Cynhelir yr arolwg bob dwy flynedd.

Byddwn yn gwerthuso'r cynllun codi ymwybyddiaeth ar ddiwedd 2023.

Caiff cynllun wedi'i ddiweddaru ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

**Hawliau Plant**
Cymru

**Children's Rights**
Wales